

CFfG/2021/ 7fed Cyfarfod

Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 16:30 ddydd Llun 22 Tachwedd 2021 trwy gyfrwng Microsoft Teams.

Yn bresennol:

Mrs Ustus Jefford

Dirprwy Gadeirydd

Huw Vaughan Thomas
Sam Hartley

Comisiynydd
Comisiynydd

Shereen Williams
Tom Jenkins
Rhydian Fitter
Carys Vaughan

Ysgrifennydd y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn

Amser Dechrau: 16:45

Amser Gorffen: 17.23

1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGAN BUDDIANNAU

1.1. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer Neil Park ac Aaron Sollis.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

3.1. **Cytunodd** y Comisiwn ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mawrth 12 Hydref 2021, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

4. MATERION YN CODI

4.1. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau ar Faterion yn codi o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ddydd Mawrth 12 Hydref 2021.

Mater 1 – Gwrandawiadau Cyhoeddus

4.2. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi derbyn dyfynbrisiau diwygiedig gan y tri darparwr ar gyfer ffrydio byw. Cynhelir cyfarfod yfory a bydd

Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn gwneud penderfyniad terfynol ar y darparwr.

Mater 2 – Penodi Comisiynwyr Cynorthwyol

- 4.3. Rhoddwyd diweddariad ar benodiadau'r Comisiynwyr Cynorthwyol ac mae'r Ysgrifennydd wedi gofyn i'r llythrau penodi gael eu hanfon fel mater o frys. Cafwyd trafodaeth bellach ar benodi Comisiynwyr Cynorthwyol o dan Eitem 5.

5. COFRESTR RISG

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** bod y newidiadau a **gytunwyd** yn y cyfarfod diwethaf wedi'u gwneud.
- 5.2. **Nodwyd** bod pum newid i'r gofrestr risg fel a ganlyn:
- 5.3. Newidiwyd y mesurau lliniaru ar gyfer **CFfG6** i adlewyrchu bod yr ysgrifenyddiaeth bellach wedi ymgysylltu â nifer o gyfieithwyr eraill i gynorthwyo â'r gwaith o gyfieithu'r sylwadau.
- 5.4. Newidiwyd y mesurau lliniaru ar gyfer **CFfG7** i adlewyrchu bod pob un o'r 22 o Orchmynton llywodraeth leol bellach wedi'u cyhoeddi.
- 5.5. Newidiwyd y mesurau lliniaru ar gyfer **CFfG13** i adlewyrchu'r hysbysebu helaeth a wnaed drwy gydol y cyfnod ymgynghori.
- 5.6. Newidiwyd lliw'r golofn symbolau ar gyfer **CFfG14** o wyrdd i oren i adlewyrchu lefel y risg.
- 5.7. Cafodd y cyfeiriad at wrandawiadau Hybrid ei ddileu o **CFfG16** yn dilyn y cyngor cyfreithiol a dderbyniwyd gan y Comisiwn Ffiniau i Loegr (BCE).
- 5.8. **Cytunwyd** newid y risg ar gyfer **CFfG4** i 16 oherwydd yr oedi wrth benodi'r Comisiynwyr Cynorthwyol. Cafwyd trafodaeth ynghylch goblygiadau hyn, a **chytunwyd** bod angen cynllun wrth gefn er mwyn osgoi unrhyw effaith ar yr arolwg.
- 5.9. **Nodwyd** y byddai peidio â phenodi Comisiynydd Cynorthwyol sy'n Siaradwr Cymraeg yn cael effaith fawr ar y gwrandawiadau cyhoeddus.
- 5.10. **Nodwyd** bod angen pob un o'r tri Chomisiynydd Cynorthwyol ar gyfer y gwrandawiadau cyhoeddus.

- 5.11. **Nodwyd** os na chaiff y Comisiynwyr Cynorthwyol eu penodi mewn pryd, y gallai'r Comisiwn benodi rhywun i gadeirio'r gwrandawiadau cyhoeddus ond nid i weithredu fel Comisiynydd Cynorthwyol.
- 5.12. **Cytunwyd** os na fydd y Comisiynwyr Cynorthwyol wedi'u penodi erbyn dydd Iau 2 Rhagfyr, bydd y Comisiwn yn ystyried gofyn i unigolion addas eraill gadeirio'r gwrandawiadau cyhoeddus.

6. LLEOLIADAU'R GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS

- 6.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried yr adroddiad dyddiedig 11 Tachwedd 2021 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 6.2. **Nodwyd** a **chytunwyd** ar leoliadau'r gwrandawiadau cyhoeddus.
- 6.3. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi derbyn sawl archeb ar gyfer y gwrandawiadau cyhoeddus, a Chaerdydd ac Aberystwyth yw'r rhai mwyaf poblogaidd hyd yn hyn. **Nodwyd** bod hyn yn bennaf oherwydd y bydd cynrychiolwyr Pleidiau Gwleidyddol yn mynychu'r ddau wrandawriad cyhoeddus.
- 6.4. **Nodwyd** y bydd hysbysebion ar gyfer y gwrandawiadau cyhoeddus yn mynd yn fyw yfory. **Adroddodd** y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu y bydd hysbysebion tudalen flaen yn ymddangos dros yr wythnosau nesaf mewn sawl papur newydd a fydd yn cwmpasu pob gwrandawriad cyhoeddus yn ddaearyddol. Bydd hysbysebion ar-lein yn ymddangos ar Nation.Cymru, ac mae'r Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi gofyn am ddyfynbris ar gyfer hysbyseb Cymraeg yn Golwg. Hefyd, dyrennir £1000 am bob gwrandawriad cyhoeddus ar gyfer hysbysebion ar Facebook.

7. ADRODDIAD CYFATHREBU'R CYNIGION CYCHWYNNOL

- 7.1. Bu'r Comisiwn yn ystyried Adroddiad Cyfathrebu'r Cynigion Cychwynnol gan y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.
- 7.2. **Nodwyd**, yn y dadansoddiad o fetrigau allweddol mewn perthynas â hysbysebu ar Facebook, mai cyrhaeddiad yw nifer y bobl y mae'r hysbyseb wedi'u cyrraedd, ac argraffiadau yw'r nifer o weithiau y gwelwyd yr hysbyseb.
- 7.3. **Nodwyd** bod cyrhaeddiad hysbysebu ar Facebook yn weddol gyfartal ar draws pob grŵp oedran, a gwelwyd yr hysbysebion gan nifer uwch o fenywod na gwrywod.
- 7.4. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi dewis mynd â'r opsiwn hysbysebu agored ar Facebook.

- 7.5. **Nodwyd** nad yw'r Comisiwn yn gallu cymharu'r wybodaeth hon ag arolygon blaenorol oherwydd nad oedd ganddo Reolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, na'r un lefel o ystadegau.
- 7.6. **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi derbyn nifer uwch o sylwadau o gymharu ag arolygon blaenorol. **Cytunwyd** bod hyn yn dangos pwysigrwydd cael tri Chomisiynydd Cynorthwyol.
- 7.7. Nodwyd y bydd y Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu a'r Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn dadansoddi'r data yn yr adroddiad ymhellach, ynghyd ag allforio data o'r porth ymgynghori er mwyn cael rhagor o wybodaeth. Bydd hyn yn cynnwys sut y clywodd ymatebwyr am y Comisiwn, a lleoliad yr ymatebwyr.

8. ADRODDIAD GWERSI A DDYSGWYD 2018 – ARGYMHELLION

- 8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 10 Tachwedd 2021 gan yr Ysgrifennydd, a **nodwyd** a **chytunwyd** ar y cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion ar wersi a ddysgwyd.
- 8.2. **Nodwyd** mai dim ond pedair eitem o'r adroddiad sydd heb eu cwblhau ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys un eitem sy'n gysylltiedig â Recriwtio'r Comisiynwyr Cynorthwyol, un eitem sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, ac un yn ymwneud â'r newidiadau i Is-adran Noddi CFFG. **Nodwyd** bod y bedwaredd eitem ar fin cael ei chwblhau gan fod y Comisiwn yn defnyddio meddalwedd mapio newydd.
- 8.3. **Cytunwyd** y bydd yr eitem hon yn cael ei thynnu oddi ar agenda'r cyfarfod nesaf.

9. UNRHYW FUSNES ARALL

- 9.1. **Cytunwyd** os na chaiff y Comisiynwyr Cynorthwyol eu penodi mewn pryd, bydd y Comisiwn yn cyfarfod ym mis Rhagfyr. Fel arall, **cytunwyd** cynnal y cyfarfod nesaf **ddydd Llun 10 Ionawr am 4:30pm**.
- 9.2. **Nodwyd** y cynhelir sesiwn gynefino ar gyfer y Comisiynwyr Cynorthwyol ddydd Iau 2 Rhagfyr. Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon gwahoddiadau ar gyfer y sesiwn gynefino at y Comisiynwyr.
- 9.3. **Nodwyd** y bydd Swyddfa'r Comisiwn ar gau o ddydd Gwener 17 Rhagfyr am gyfnod y Nadolig a bydd yn ailagor ddydd Mawrth 4 Ionawr.

Gweithredu: Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon gwahoddiadau ar gyfer sesiwn gynefino'r Comisiynwyr Cynorthwyol at y Comisiynwyr.